***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 35 (Cy.2)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2005

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *11 Ionawr 2005* |
| *Yn dod i rym - -* | *18 Ionawr 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 537A(1) a (2), a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**):

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2005 a deuant i rym ar 18 Ionawr 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

### Diwygio Rheoliadau

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2003(**3**) fel a ganlyn.

(2) Ar ddiwedd rheoliad 3, ychwaneger y geiriau ", a hynny ar ffurf y gall peiriant ei phrosesu".

(3) Yn Rhan 2 o'r Atodlen—

(a) dileer y gair "a" ar ddiwedd paragraff 1(a);

(b) yn lle paragraff 1(b), rhodder—

"(b) teitl pob gweithgaredd dysgu y mae'r disgybl yn ei astudio; ac

(c) pa un a gafodd y disgybl ei sgrinio i ganfod unrhyw anghenion o ran sgiliau sylfaenol llythrennedd a Rhif edd ar ddechrau ei raglen o weithgareddau dysgu yn y chweched dosbarth ac, os felly, pa un a oedd ei sgiliau sylfaenol mewn perthynas â llythrennedd a Rhif edd—

(**1**) 1996 p.56. Mewnosodwyd adran 537A gan Ddeddf Addysg 1997 (1997 p.44), adran 20, ac fe'i disodlwyd gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (1998 p.31), adran 140(1) ac Atodlen 30, paragraffau 57 a 153. I gael ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 579(1) o Ddeddf 1996.

(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 2003/3237 (Cy.317).

(i) heb eu hasesu oherwydd ni chanfyddwyd unrhyw anghenion sgiliau sylfaenol wrth i'r disgybl gael ei sgrinio; neu

(ii) wedi'u hasesu, a nodwyd bod sgiliau sylfaenol y disgybl—

(aa) yn is na'r lefel mynediad,

(bb) ar lefel mynediad 1,

(cc) ar lefel mynediad 2,

(chch) ar lefel mynediad 3,

(dd) ar lefel 1, neu

(dddd) yn uwch na lefel 1; neu

(iii) yn anhysbys neu gwrthododd y disgybl i gael ei asesu.";

(c) ym mharagraff 2, ar ôl y geiriau "Mewn perthynas â", yn lle'r geiriau "cwrs neu weithgaredd dysgu arall", rhodder "gweithgaredd dysgu";

(ch) dileer y gair "ac" ar ddiwedd paragraff 2(d); a

(d) ar ôl paragraff 2(dd), rhodder y paragraff a ganlyn—

"(e) pa un a yw'r disgybl yn parhau i astudio neu a yw wedi cwblhau neu wedi tynnu yn ôl o'r gweithgaredd dysgu; ac

(f) os cwblhaodd neu os tynnodd y disgybl yn ôl o'r gweithgaredd dysgu, y dyddiad y cwblhaodd neu y tynnodd y disgybl yn ôl o'r gweithgaredd dysgu, a pha un a yw'r disgybl wedi dechrau astudio gweithgaredd dysgu newydd.".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*D. Elis-Thomas*

11 Ionawr 2005

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2003, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ddarparu gwybodaeth ragnodedig am y disgyblion sydd yn yr ysgol i'r awdurdod addysg lleol sy'n cynnal yr ysgol, a hynny ar gais ysgrifenedig yr awdurdod.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau 2003 drwy:

- ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir ddarparu gwybodaeth am ddisgyblion unigol i'r awdurdod addysg lleol sy'n ei chynnal, a hynny ar ffurf y gall peiriant ei phrosesu; ac
- ymestyn rhychwant yr wybodaeth y caiff awdurdodau addysg lleol ofyn amdani am ddisgyblion y chweched dosbarth.